

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd 3 Chwefror 2014 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

### Presennol:

Cyng. Auriol Williams (*Cadeirydd*)  
Cyng. Llinos Price  
Cyng. Huw Jones  
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Des Davies (*Is-Gadeirydd*)  
Cyng. Ann Stokoe  
Cyng. Eurig Lloyd  
Cyng. Haydn Lewis (*Aelod lleol y Cyngor Sir*) (8.05)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Chwefror. Croesawodd hefyd y Cyng. John Adams-Lewis, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, a dymunodd yn dda iddo am weddill ei flwyddyn yn y swydd.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Islwyn Iago, Dilwyn Jenkins a Lyn Jones
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**  
Cynigiwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Ionawr yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Llinos Price – Eitem 9 [132] – Cefnogaeth i Gapel Penyparc.
- 5. Materion yn codi:**
  - (i) Gwefan i'r Cyngor:** Cyfarfu'r Cynghorwyr Auriol Williams, Ann Stokoe a Llinos Price, ynghyd â'r Clerc ar 21 Ionawr i drafod y ffordd ymlaen gyda'r wefan. Gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda Mr Clive Davies yn ystod y pythefnos nesaf.
  - (ii) Llwybr troed sydd yn arwain o'r ffordd i'r traeth yn Gwbert:** Mae'r Clerc wedi cysylltu â Mr Nigel Nicholas unwaith yn rhagor ynglŷn â'r arwyddion. Dywedodd ei fod yn disgwyl arwyddion sydd yn fwy amlwg.
  - (iii) Archwilio'r Chwaraefannau yn Ferwig a Phenyparc:** Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth ROSPA bod y ddwy chwaraefan ar ei rhestr i'w harchwilio ym mis Mehefin (gweler eitem 9 [127]).
  - (iv) Arwydd "Araf/Slow" wedi pylu a gwteri wedi blocio:** Cafwyd ymateb gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru y caiff y gwaith ei gyflawni cynted â phosib (gweler eitem 9 [124]).
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**  
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Dim
CAB ( <i>adran 142</i> )	Dim
Ambiwlans Awyr Cymru	£100.00
Gŵyl Fawr Aberteifi	£100.00
Ras yr Iaith	Dim
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500.00
Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	Dim
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion YFCs	Dim
Gofal Mewn Galar	Dim
Cofeb Genedlaethol Cymru – Fflandrys (Un Llais Cymru)	Dim
Llyfrau Llafar Cymru	Dim
Shelter Cymru	Dim
Urdd Gobaith Cymru	Dim
Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymunedol Penyparc	£100.00
Ysgol Feithrin, Penyparc	£100.00
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	I'w drafod ym mis Ebrill 2014
Gofal Mewn Galar	I'w drafod ym mis Ebrill 2014

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Cynllunio:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A130391	16 a 17 Clos y Gwyddil, Ferwig. "Erection of two dwellings".	Apêl yn erbyn penderfyniad y Cyngor Sir i'w gynnal ar 26 Mawrth yn Ystafell Teifi, Penmorfa am 10 o'r gloch.

### Ceisiadau wedi eu caniatáu / gwrthod:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Penderfyniad y Cyngor Sir</i>
A130889	Wavecrest, Gwbert "Proposed annexe to main house".	Wedi ei ganiatáu.

## 8. Materion Ariannol.

### Biliau wedi eu talu:

Cyllid a Thollau EM: Treth incwm y Clerc (Ionawr 2014)	101327	£73.00
Cyflog y Clerc (Ionawr 2014)	101328	£292.50
Costau'r Clerc (Ionawr 2014)	101329	£46.60
Argraffwyr E L Jones (Papur a Llungopiau)	101330	£144.60
SWALEC (Trydan Cae Gwyrdd, Penyparc)	101331	£18.59
Clwb Ieuenctid Penyparc (Hanner Yswiriant Ystafell Berkley)	101332	£314.05

Cynigiwyd gan y Cyng. Huw Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

## 9. Gohebiaeth:

122	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw)	Ateb i llythyr anfonwyd 9 Medi ynglŷn â bwlch wedi ei greu rhwng Ysgol Penyparc a Blaenpistyll.	Cadarnhad gan y Cyngor Sir bod y ffeil bellach wedi ei chau ynglŷn â'r mater hwn.
123	Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaeth Datblygu Economaidd a Chymunedol)	Ymgynghori ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion.	Copi o'r e-bost yn cynnwys cyfeiriad gwefan wedi ei anfon i aelodau'r Cyngor. Mae gan y Clerc gopi caled.
124	Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Ymateb i llythyr y Cyngor yn cwyno ynglŷn â cheubyllau tu allan i Ysgol Penyparc ac arwydd "Araf/Slow" wedi pylu. Dywedwyd y bydd y gwaith yn cael eu gyflawni pan fydd arian ar gael.	Gweler eitem 5 rhif (iv)
125	Un Llais Cymru	Rhifyn Gaeaf 2013/14 o gylchlythyr "Y Llais".	Copi ar gael gan y Clerc.
126	Cyngor Sir Ceredigion (Adran y Priffyrdd, Eiddo a Gwaith)	Cadarnhad o dderbyn llythyr ynglŷn â nifer o geubyllau ayyb.	Nodwyd
127	ROSPA	Llythyr yn cadarnhau y bydd Chwaraefannau y Ferwig a Chae Gwyrdd yn cael eu harchwilio ym mis Mehefin 2014.	Nodwyd
128	Matthew Kieboom PCSO	E-bost ynglŷn â chyfarfod "Ceredigion Community Safety Partnership" i'w gynnal yn Penmorfa, Aberaeron nos Fercher, 22 Ionawr am 7 o'r gloch.	Copi o'r e-bost wedi ei ddanfon i'r aelodau.
129	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw).	Llythyr yn cynnig coed am ddim i ysgolion, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol y sir.	Gofynnwyd i'r Clerc anfon copi o'r llythyr at Glwb Ffermwyr Ifainc Penyparc ac Ysgol Gymunedol Penyparc.
130	Un Llais Cymru	Agenda cyfarfod o Bwyllgor Ardal Ceredigion i'w gynnal am 7.00yh nos Fercher, 29 Ionawr 2014 yn Penmorfa, Aberaeron.	Nodwyd

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

		Hefyd cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd mis Hydref 2013.	
131	Elin Jones AC	Posteri ynglŷn â manylion cyswllt	Wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.
132	Eglwys y Bedyddwyr Penyparc	Cais am lythyr o gefnogaeth i'r capel am grant at welliannau i'r festri.	Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr o gefnogaeth i'r Cyngor Sir.
133	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol)	Gwybodaeth ynglŷn â "Ceredigion i Bawb: Ein Bywoliaeth, Ein Strategaeth Adfywio Economaidd".	Copi o'r llythyr yn cynnwys y cyfeiriad gwefan wedi ei ddsbarthu i bob aelod. Mae un copi caled ar gael gan y Clerc.
134	Cyngor Sir Ceredigion (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd)	Nodyn atgoffa i ddechrelyd y ffurflen at y Cyngor Sir i gadarnhau bod y Cyngor yn derbyn y cynnig o £500 i'w ddefnyddio i greu gwefan newydd.	Y Clerc wedi dychwelyd y ffurflen i'r Cyngor Sir.
135	Clybiau Ffermwyr Ifainc Ceredigion	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.
136	Technoleg Taliesin Cyf.	Gwybodaeth ynglŷn â gwefan i'r Cyngor	Nodwyd
137	Gofal Mewn Galar	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod yng nghyfarfod mis Ebrill.

## 10. Materion Eraill:

- (i) **Golau Stryd yn ddiffygiol tu allan i 15/16 Heol y Felin:** Galwad ffôn wedi ei dderbyn oddi wrth y Cyng. Llinos Price yn dweud fod golau stryd tu allan i 15/16 Heol y Felin yn ddiffygiol. Mae'r Clerc wedi ffonio'r Cyngor Sir ynglŷn â hyn.
- (ii) **Coeden wedi syrthio ar y llwybr troed rhwng Fferm Aberdar a Felin Bedr:** Derbyniodd Mr John Morris gwyn ynglŷn â choeden wedi syrthio ar y llwybr uchod. Dywedodd y byddai yn ei chlirio cyn gynted â phosib.
- (iii) **Agoriad Swyddogol Cae Gwyrdd, Penyparc:** Y Clerc i gysylltu â staff Ysgol Gymunedol Penyparc am ddyddiad cyfleus tua diwedd tymor y Pasg i gyflwyno eitem yn yr agoriad swyddogol. Wedi penderfynu ar ddyddiad, bydd angen hysbysu'r wasg leol a'r "Gambo" a threfnu ffotograffydd i'r achlysur.
- (iv) **Sealands, Patch:** Y Clerc i ysgrifennu at y Cyngor Sir i'w hysbysu am y llifogydd sydd o fewn y tir ac ar y ffordd ger Sealands. Gan fod yr amodau yn beryglus i gerbydau, mae angen i'r Cyngor Sir osod arwydd o rybudd.
- (v) **Ysbyty Aberteifi:** Y Clerc i ysgrifennu at Mr Chris Martin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Hywel Dda, i achwyn am y toriadau yng ngwasanaethau iechyd Ysbyty Aberteifi a'r pryder am ddiflaniad yr holl welyau. Copïau i'w anfon at Yr Athro Trevor Purt, Mark Drakeford AC, Elin Jones AC, Mark Williams AS a'r Cyng. Haydn Lewis.
- (vi) **Clwb Ffermwyr Ifainc Penyparc:** Y Clerc i gynnwys llongyfarchiadau'r Cyngor i'r Clwb yn adroddiad y wasg ar gynnal Dydd Agored llwyddiannus gan ddangos lluniau a hanes y Clwb oddi ar ei sefydlu 70 mlynedd yn ôl. Dymunwyd yn dda i'r Clwb ar achlysur y dathliad ar 15 Mawrth.
- (vii) **Ysgol Gymunedol Penyparc:** Y Clerc i anfon cyfarchion y Cyngor at staff yr ysgol ar eu llwyddiant o ddod yn 13eg drwy Gymru gyfan mewn adolygiad a gariwyd allan gan bapur dyddiol y "Western Mail".
- (viii) **Golygfan Gwbart:** Rhoddwyd caniatâd i Mr John Morris ofyn am wasanaeth Mr William Phillips, Lleine, i ddod â thorrwr cloddiau i gyflawni gwaith angenrheidiol yr yr Olygfan.
- (ix) **Cysgodfan Bysiau Tremain:** Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth Mr John Morris bod yr iorwg wedi ei glirio o'r gysgodfan.

## 11. Dyddiad Cyfarfod Cyffredinol nesaf y Cyngor: 3 Mawrth 2014 yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30yh.

### Cyfarfodydd y Cyngor am 2014

7 Ebrill (YB)   2 Mai (F: CB)   9 Mehefin (YB)

16 Gorffennaf (F)   1 Medi (YB)   6 Hydref (F)   3 Tachwedd (YB)   1 Rhagfyr (F)

*Dynoda:* F = Hen Ysgol y Ferwig   YB = Ystafell Berkley   CB = Cyfarfod Blynnyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Ordinary Meeting held on 3 February 2014 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc.

### Present

Cllr Auriol Williams (*Chairperson*)  
Cllr Llinos Price  
Cllr Huw Jones  
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Des Davies (*Vice Chairman*)  
Cllr Ann Stokoe  
Cllr Eurig Lloyd  
Cllr Haydn Lewis (*Local Representative of County Council*)  
(8.05)

### 1. Chairperson's welcome.

The Chairperson, Cllr Auriol Williams, welcomed everyone to the February meeting. She also welcomed Cllr John Adams-Lewis, Chairman of Ceredigion County Council, and wished him well for the rest of his year in office.

### 2. Apologies for absence: Cllrs Islwyn Iago, Dilwyn Jenkins and Lyn Jones.

### 3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Eurig Lloyd and seconded by Cllr Des Davies that the minutes for January meeting are correct.

### 4. Declaration of personal interests: Cllr Llinos Price – Item 9 [132] – Support for Penyparc Chapel.

### 5. Matters arising:

- (i) **Council Website:** Cllrs Auriol Williams, Ann Stokoe, Llinos Price, and the Clerk met to discuss the way forward with the website. The Clerk was asked to arrange a meeting with Mr Clive Davies during the next fortnight.
- (ii) **Footpath leading from the road to the beach at Gwbert:** The Clerk has contacted Mr Nigel Nicholas once again regarding the signs. He stated that he was still awaiting the arrival of the larger signs.
- (iii) **Playarea Inspections at Ferwig and Penyparc:** Confirmation was received from ROSPA that the two playareas are on their June list to be inspected (See Item 9 [127]).
- (iv) **Faded "Araf/Slow" sign and blocked gutters:** Reply received from North & Mid Wales Trunk Road Agency stating that the issues raised will be attended to in the appropriate manner, as and when resources permit (See item 9 [124]).

### 6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Urdd Gobaith Cymru	Nil
<i>CAB (section 142)</i>	Nil
Wales Air Ambulance	£100.00
<i>Gŵyl Fawr Aberteifi</i>	£100.00
Race for the Language	Nil
Pwyllgor Neuadd a Lles y Ferwig	£500.00
Gŵyl Cerdd Dant Ystrad Fflur a'r Fro 2013	Nil
Ceredigion YFCs	Nil
Cruse Bereavement Care	Nil
Welsh National Memorial – Flanders (One Voice Wales)	Nil
<i>Shelter Cymru</i>	Nil
Urdd Gobaith Cymru	Nil
Llyfrau Llafar Cymru	Nil
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	£100.00
Ysgol Feithrin Penyparc	£100.00
Eisteddfod Genedlaethol Cymru (Sir Gâr)	To be discussed in April 2014
Urdd Gobaith Cymru (Eisteddfod yr Urdd Meirionnydd)	To be discussed in April 2014
Eisteddfod Gerddorol Rhyngwladol Llangollen	To be discussed in April 2014
Ceredigion Young Farmers Club	To be discussed in April 2014
Cruse Bereavement Care	To be discussed in April 2014

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 7. Planning:

<i>Application No.</i>	<i>Address / Purpose</i>	<i>Observations</i>
A130391	16 a 17 Clos y Gwyddil, Ferwig. "Erection of two dwellings".	Appeal against the County Council's decision to be held on the 26 March at Ystafell Teifi, Penmorfa at 10a.m.

### Applications approved or refused by the County Council:

<i>Application No</i>	<i>Address / Purpose</i>	<i>County Council's Decision</i>
A130889	Wavecrest, Gwbert "Proposed annexe to main house".	Planning Permission granted.

## 8. Financial Matters.

### Bills paid:

HM Revenue & Customs: Clerk's Income Tax (January 2014)	101327	£73.00
Clerk's Salary (January 2014)	101328	£292.50
Clerk's Expenses (January 2014)	101329	£46.60
E. L. Jones Cyf., Printers (Photocopies and Paper)	101330	£144.60
SWALEC (Electricity Cae Gwyrdd, Penyparc)	101331	£18.59
Penyparc YFC (50% Insurance premium on Ystafell Berkley)	101332	£314.05

It was proposed by Cllr Huw Jones and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

## 9. Correspondence:

122	Ceredigion County Council (Head of Lifestyle Services)	Reply to letter sent 9 September regarding an access between Penyparc School and Blaenpistyll which the authority states has been there since 2009.	Confirmation that the County Council has now closed its file on this matter.
123	Ceredigion County Council (Head of Economic and Community Development Services)	Ceredigion LDP Draft Supplementary Planning Guidance Consultation.	Copy of e-mail forwarded to all members of the Council. The Clerk has a hard copy available for scrutiny.
124	North & Mid Wales Trunk Road Agency.	Reply to Council's letter regarding potholes nearby Penyparc School and a faded "Araf/Slow" sign. The authority states that the issues raised will be attended to in the appropriate manner, as and when resources permit.	See item 5 (iv)
125	One Voice Wales	Winter 2013/14 Newsletter, "The Voice"	Copies available with the Clerk.
126	Ceredigion County Council (Highway, Property and Works Department)	Confirmation of receipt of letters regarding various issues in the community, i.e. potholes and blocked drains.	Noted.
127	ROSPA	Letter of confirmation that Ferwig and Cae Gwyrdd playareas will be inspected during June 2014.	Noted.
128	Matthew Kieboom PCSO	E-mail regarding a meeting of "Ceredigion Community Safety Partnership" to be held at Penmorfa, Aberaeron on Wednesday, 22 January at 7.00pm.	Copy of e-mail forwarded to all Councillors.
129	Ceredigion County Council (Head of Lifestyle Services)	Correspondence regarding free trees to local schools, community councils and other community groups.	The Clerk was requested to forward a copy of letter to Penyparc YFC and Penyparc School.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

130	One Voice Wales	Agenda for meeting of Ceredigion Area Committee to be held at 7.00pm on Wednesday, 29 January 2014 at Penmorfa, Aberaeron. Also minutes of meeting held in October 2013.	Noted
131	Elin Jones AM	Posters regarding contact information.	Copy placed in each noticeboard.
132	Eglwys y Bedyddwyr Penyparc	Request for letter of support regarding a grant application to carry out improvements to the Vestry.	Clerk was instructed to forward a letter of support to the County Council.
133	Ceredigion County Council (Head of Economic and Community Development Services)	Information regarding "Ceredigion for All: Livelihoods, Our Economic Regeneration Strategy".	Copy of letter showing the website address forwarded to all members of the Council. The Clerk has one hard copy.
134	Ceredigion County Council (Head of Legal, Human Resources and Democratic Services)	Reminder of the Welsh Government Initiative regarding grant for developing Council webstte	Clerk has returned application to the County Council.
135	Ceredigion YFC	Request for financial support.	To be discussed in April.
136	Technoleg Taliesin Cyf.	Information regarding a website for the Council.	Noted
137	Cruse Bereavement Care.	Request for financial support.	To be discussed in April.

## 10. Other Matters:

- (i) **Faulty street light outside 15/16 Heol y Felin:** Telephone call received from Cllr Llinos Price stating that a street light outside 15/16 Heol y Felin was faulty. The Clerk has telephoned the County Council regarding this.
- (ii) **Fallen tree on the footpath between Aberdare Farm and Felin Bedr:** Mr John Morris received a complaint that a tree had fallen on the footpath. He stated that he would be clearing it as soon as possible.
- (iii) **Official Opening of Cae Gwyrdd, Penyparc:** The Clerk to contact the staff at Ysgol Gymunedol Penyparc to request that they bring pupils from the school to the opening, and to arrange a mutually suitable date towards the occasion at the end of the Easter Term. The Clerk will contact the "Tivyside" and the "Gambo" papers to advertise the event and arrange a photographer.
- (iv) **Sealands, Patch:** The Clerk was instructed to contact the County Council informing them of the floods on the land of Sealands, which is also affecting the road. As this causes potential danger to road users, it is necessary to place warning signs at the location as soon as possible.
- (v) **Cardigan Hospital:** The Clerk to write to Mr Chris Martin, Chairman of Hywel Dda Health Board, complaining at the cuts in the health services in Cardigan Hospital and the loss of all beds. Copies to be send to Prof. Trevor Purt, Mark Drakeford AM, Elin Jones AM, Mark Williams MP and Cllr. Haydn Lewis.
- (vi) **Penyparc Young Farmers' Club:** The Clerk to include in its press report the Council's congratulations to the Club on organising a successful Open Day featuring a display of historic photographs since the establishment of the movement 70 years ago. The Council wished the Club a successful celebration evening on 15 March.
- (vii) **Penyparc Junior School:** The Clerk was asked to forward the Council's congratulations to the school on achieving 13<sup>th</sup> place throughout Wales in an inspection organised by the "Western Mail" newspaper.
- (viii) **Gwbert Viewpoint:** Permission was given to Mr John Morris to obtain hedge-cutting equipment from Mr William Phillips, Lleine, to complete necessary work at the Viewpoint
- (ix) **Tremain Bus Shelter:** Mr John Morris confirmed that the work to remove the ivy at the shelter was complete.

## 11. Date of next Council Meeting: 3 March 2014 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig.

### Council Meetings in 2014

7 April (YB)    12 May (F: AGM)    9 June (YB)  
 16 July (F)    1 September (YB)    6 October (F)    3 November (YB)    1 December (F)

*Denotes:*    F = Ferwig Old School.    YB = Ystafell Berkley.    AGM = Annual General Meeting